# Deddf Cyfraith sy’n Deillio o’r Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2018

**2018 dccc 3**

*Cyfraith Cymru sy’n deillio o’r UE*

**6 Heriau i gyfraith Cymru sy’n deillio o’r UE sy’n codi o annilysrwydd offerynnau gan yr UE**

(1) Nid oes unrhyw hawl yng nghyfraith Cymru a Lloegr ar neu ar ôl y diwrnod ymadael i herio unrhyw ddarn o gyfraith Cymru sy’n deillio o’r UE ar y sail bod offeryn gan yr UE yn annilys yn union cyn y diwrnod ymadael.

(2) Nid yw is-adran (1) yn gymwys i’r graddau—

(a) y mae Llys Ewrop wedi penderfynu cyn y diwrnod ymadael fod yr offeryn yn annilys,

(b) y mae’n ymwneud ag unrhyw ymddygiad a ddigwyddodd cyn y diwrnod ymadael sy’n arwain at unrhyw atebolrwydd troseddol, neu

(c) y mae’r her o fath a ddisgrifir, neu y darperir ar ei gyfer, mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff rheoliadau o dan is-adran (2)(c) (ymhlith pethau eraill) ddarparu i her a fyddai wedi bod yn erbyn un o sefydliadau’r UE fel arall fod yn erbyn awdurdod cyhoeddus sy’n arfer swyddogaethau o fewn cymhwysedd datganoledig (ac eithrio un o Weinidogion y Goron).